



Seremoni Llw

18 Hydref 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 15 Medi, pan wnaethoch ofyn am:

*Gopi o'r asesiad risg llawn a gynhaliwyd cyn y seremoni llw.
Pam y caniatwyd "cwtsh" yn Siambr y Senedd pan na chaniatwyd pethau o'r fath
ar y pryd oherwydd cyfyngiadau Covid, yn ôl y Prif Weinidog?*

Gweler ynghlwm y ddogfen asesu risg, dan y teitl: *Asesiad risg: Croeso a Chyfeiriadedd 7-11 Mai 2021*'. (i gael copi - anfonwch neges e-bost at Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru) Ail-olygwyd rhywfaint o'r wybodaeth yn y ddogfen hon oherwydd ei bod yn cynnwys data personol sydd wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu yn unol â'r eithriad 'gwybodaeth personol' yn adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol pan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys data personol ac y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un neu rai o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

Rydym hefyd wedi defnyddio dau eithriad pellach mewn perthynas â dau gynllun llawr sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen asesu risg. Rydymo'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn peryglu diogelwch unigolion, yn ogystal â chael effaith negyddol ar ein gallu i amddiffyn diogelwch cenedlaethol. O'r herwydd, rydym o'r farn bod y wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adrannau 38(1)(b) a 24(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn y drefn honno.

Mae rhesymau eraill pam bod y tri eithriad yn berthnasol wedi'u nodi yn yr [Atodiad](#) isod.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Mewn ymateb i ail ran eich cais, caniatawyd i bob Aelod o'r Senedd ddod ag un gwestai o'i "swigen" aelwyd i'r Siambr. Wrth symud o amgylch y Siambr, roedd yn ofynnol i holl Aelodau'r Senedd, eu gwestai a'r staff a oedd yn bresennol wisgo mwgwd a chadw pellter cymdeithasol o ddau fetr. Pan oedd pob unigolyn yn ei ardal ddynodedig, caniatawyd iddo dynnu ei fwgwd i'w alluogi i dyngu Llŵ ac i dynnu llun yn coffáu'r digwyddiad.

Rwyf hefyd wedi atodi dogfen dan y teitl: '*Covid-19: Mynediad at Ystâd y Senedd yn dilyn Etholiad y Senedd*'. Dogfen ganllawiau yw hon, a anfonwyd at bob Aelod o'r Senedd cyn iddynt ddod i'r Senedd neu swyddfa Gogledd Cymru. Nid wyf wedi datgelu'r ddogfen yn ei chyfanrwydd, dim ond yr hyn a oedd o fewn cwmpas eich cais.

Yn gywir,

Buddug Saer

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais am ryddid gwybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu anfonwch lythyr i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Atodiad

Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000: byddai datgelu data personol yn torri GDPR y DU

Mae peth o'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn Erthygl 4 Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU ("GDPR y DU"), sef:

"any information relating to an identified or identifiable natural person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, psychological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n gymwys ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor diogelu data gyntaf.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y'i nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU yn nodi:

"Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')".

Wrth benderfynu a fyddai datgelu'r wybodaeth hon yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau'r datgeliad, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad.

Mae'r asesiad risg yn cynnwys gwybodaeth bersonol staff Comisiwn y Senedd; yn benodol enwau a theitlau swyddi. Mae statws a natur y swyddi hynny yn amrywio.

Wrth asesu a fyddai datgelu'r wybodaeth yn deg, rydym wedi ystyried canlyniadau gwneud hynny, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau ac unrhyw fudd dilys wrth ddatgelu'r wybodaeth. Mewn perthynas â'r data personol sydd wedi'i ailolygu, ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu. Nid oes gan yr unigolion hynny swyddi uwch na swydd sy'n wynebu'r cyhoedd yng Nghomisiwn y Senedd. Ni fyddent yn disgwyl i'w henwau na manylion eu swyddi gael eu cyhoeddi drwy ryddhau'r ddogfen gyfan. (Mewn cyferbyniad, mae data personol uwch staff sydd â swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd yn parhau i fod yn y ddogfen.)

Er ein barn o ran tegwch, aethom ati i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw unrhyw un o'r seiliau cyfreithiol yn Erthygl 6 yn gymwys, heblaw am Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i ddata personol gael eu prosesu ar yr amod a ganlyn:

"Processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the controller or by the third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Ni ddylai'r datgeliad anwybyddu buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid testun y data.

Yn gyffredinol, mae tryloywder o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae budd y cyhoedd yn cael ei ddiwallu yn yr achos hwn, yn ein barn ni, drwy ddatgelu gweddill cynnwys y ddogfen. Nid yw'r dadleuon o blaid datgelu'r wybodaeth na chafodd ei rhannu, yn ein barn ni, yn drech na buddiannau, hawliau sylfaenol neu ryddid gwrthrychau'r data y mae eu data personol wedi'u cuddio.

O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n angenrheidiol datgelu'r wybodaeth dan sylw i fodloni budd y cyhoedd.

Adran 24 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: Amddiffyn diogelwch gwladol

Mae adran 24(1) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- *Information which does not fall within section 23(1) is exempt information if exemption from section 1(1)(b) is required for the purpose of safeguarding national security.*

Nid oes diffiniad o "national security" yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys Gwybodaeth yn Norman Baker yn erbyn y Comisiynydd Gwybodaeth a Swyddfa'r Cabinet (EA/2006/0045 4 Ebrill 2007) wedi crynhoi bod "diogelwch gwladol" yn cynnwys amddiffyn democratiaeth a systemau cyfansoddiadol y wladwriaeth.

Rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol dal rhywfaint o wybodaeth yn ôl er mwyn atal niwed, neu'r risg o niwed, rhag digwydd i Aelodau o'r Senedd, Staff Cymorth Aelodau o'r Senedd, staff Comisiwn y Senedd, ymwelwyr a defnyddwyr eraill ystâd y Senedd, yn ogystal ag i'r seilwaith a'r adeiladau eu hunain.

Er nad yw eich cais yn gofyn am wybodaeth yn uniongyrchol am drefniadau diogelwch ystâd y Senedd, mae'r asesiad risg yn cynnwys cynlluniau llawr manwl ar gyfer rhannau o'n hystâd. Y risg wrth ddatgelu'r wybodaeth hon yw ei bod yn debygol iawn y byddai'n niweidio effeithiolrwydd ac uniondeb ein trefniadau diogelwch. Byddai datgelu'n datguddio llwybrau mynediad, lleoliadau ystafelloedd, a mynedfeydd ac allanfeydd ar ystâd y Senedd, gan ddangos, o bosibl, cryfder neu wendid y trefniadau diogelwch sydd ar waith.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad cymwys, ac o'r herwydd, rhaid ystyried budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad. Er ein bod yn derbyn bod budd cyhoeddus cryf mewn tryloywder yn gyffredinol, ein barn ni, fodd bynnag, yw bod rhyddhau'r wybodaeth hon yn debygol o beryglu ein diogelwch ac y gellid ei defnyddio i gynllunio ymosodiad ar ein hystad.

Wrth ddod i'r farn hon, rydym yn ymwybodol bod datgeliadau mewn ymateb i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu hystyried yn rhai i'r 'byd yn gyffredinol' (yn hytrach nag i'r unigolyn sy'n gwneud cais), bod ystâd y Senedd wedi cael dynodiad o dan Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 ac yn rhoi amddiffyniad diogelwch penodol inni, a bod y lefel bygythiad presennol o derfysgaeth ryngwladol yn y

DU yn cael ei asesu fel un sylweddol, y gellir ei weld yma: -

<https://www.mi5.gov.uk/threat-levels>

Yn sgil y lefel bygythiad presennol ac o ystyried ymarferion diogelwch parhaus a mesurau rhagofalus sy'n cael eu mabwysiadu mewn rhai dinasoedd mawr ac adeiladau cyhoeddus, mae'r dadleuon er budd y cyhoedd dros ddal y wybodaeth yn ôl, yn ein barn ni, yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu.

Adran 38 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: Iechyd a diogelwch

Mae adran 38(1)(b) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- *Information is exempt information if its disclosure under this Act would, or would be likely to, endanger the safety of any individual.*

Mae adran 38(1)(b) y Ddeddf yn canolbwyntio ar wybodaeth a allai beri risg pe bai'n cael ei datgelu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai arwain at risg i ddiogelwch Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, staff y Comisiwn, ymwelwyr ac unigolion eraill ar ystâd y Senedd.

Mae Adran 38 yn ddarostyngedig i brawf peryglu. Felly, rhaid i ni fod yn fodlon y byddai'r perygl yn deillio o ddatgelu'r wybodaeth. Mae peryglu diogelwch fel arfer yn gysylltiedig ag amddiffyn unigolion.

Mae rhai pobl neu grwpiau mewn cymdeithas yn arbennig o agored i niwed, ac efallai y bydd eu diogelwch yn cael ei beryglu'n haws na phobl eraill. Mae hyn yn cynnwys ffigurau cyhoeddus, fel Aelodau o'r Senedd, y mae'n ofynnol iddynt fynegi eu barn wleidyddol yn gyhoeddus. Gall hyn achosi iddynt wrthdaro ag unigolion neu grwpiau a allai fod â safbwyntiau gwahanol a cheisio achosi niwed iddynt hwy a'r rhai o'u cwmpas o ganlyniad i hynny.

Trwy ddatgelu cynlluniau llawr manwl ar gyfer rhai rhannau o ystâd y Senedd, gan gynnwys enwau a lleoliadau ystafelloedd, llwybrau mynediad, a mynedfeydd ac allanfeydd, byddai hyn yn cynyddu'r risg y bydd grwpiau a / neu unigolion yn datgelu gwendidau yn nhrefniadau diogelwch y Senedd, sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg i'r rhai sy'n gweithio ar ystâd y Senedd ac yn ymweld â hi.

Yna aethom ymlaen i ystyried prawf budd y cyhoedd. Fel rhan o'r prawf hwn, mae angen cydbwyso'r risgiau i iechyd a diogelwch unigolyn neu grŵp yn erbyn budd y cyhoedd o ran dwyn y Senedd a Chomisiwn y Senedd i gyfrif. Rhaid ystyried y prawf hwn fesul achos.

Mae budd amlwg i'r cyhoedd fod y Senedd a'r Comisiwn yn dryloyw yn eu gwaith er mwyn gallu eu dwyn i gyfrif. Fodd bynnag, mae budd cryf i'r cyhoedd hefyd ar gyfer dal gwybodaeth yn ôl a fyddai'n tansilio'r trefniadau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn diogelwch grwpiau ac unigolion, yn ogystal â chaniatáu i unigolion adnabyddus, fel ffigurau cyhoeddus, gael eu targedu.

Yn yr achos hwn, rydym o'r farn nad yw budd y cyhoedd o blaid datgelu yn gorbwyso'r angen i ddiogelu cywirdeb y trefniadau diogelwch sydd ar waith er mwyn diogelu'r Senedd a'i hystâd, a'r rheini sy'n gweithio ar yr ystâd ac yn ymweld â hi.